Prifysgol Aberystwyth University

Coleg Cymraeg Cenedlaethol


**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 8

# *Cenedlaetholdeb: Ffrydiau Amrywiol*

## Llawlyfr Gwaith


International Politics / Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# LLAWLYFR GWAITH

## TASG 1

Mae'r golofn gyntaf yn y tabl isod yn amlinellu ystod o safbwyntiau gwahanol y gellir eu cysylltu â chenedlaetholdeb ethnig neu genedlaetholdeb dinesig. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus ac yna ceisiwch benderfynu i ba un o'r traddodiadau cenedlaetholgar hyn y mae'r safbwynt yn perthyn. I orffen nodwch reswm i egluro'ch dewis yn y golofn olaf.

| SAFBWYNT | MATH O GENEDLAETHOLDEB | RHESWM DROS EICH DEWIS |
|---|---|---|
| Mae'r genedl yn endid naturiol sy'n seiliedig ar glymau ethnig neu ddiwylliannoil penodol. | | |
| Mae'r genedl yn endid dewisol sy'n seiliedig ar sefydliadau cyffredin. | | |
| Mae aelodaeth o'r genedl yn deillio o rannu nodweddion megis hil, tras neu iaith gyffredin. | | |
| Mae aelodaeth o'r genedl yn deillio o feddu ar ddinasyddiaeth gyffredin. | | |

**TASG 2**

Yn y blwch isod nodwch bwyntiau y gellid cyfeirio atynt i egluro pam y bu tuedd i ddehongli cenedlaetholdeb dinesig fel ffurf fwy blaengar a goleuedig ar genedlaetholdeb na chenedlaetholdeb ethnig.

**TASG 3**

Lluniwch baragraff byr sy'n amlinellu rhai o'r prif safbwyntiau sy'n cael eu cysylltu â chenedlaetholdeb rhyddfrydol.

**TASG 4**

Lluniwch baragraff byr sy'n amlinellu rhai o'r prif safbwyntiau sy'n cael eu cysylltu â chenedlaetholdeb ceidwadol.

## TASG 5

Gan feddwl ynglŷn â'r pwyntiau a nodwyd gennych fel rhan o'ch atebion i Dasgau 3–4, nodwch isod beth, yn eich tyb chi, yw prif gryfderau a gwendidau cenedlaetholdeb rhyddfrydol a chenedlaetholdeb ceidwadol.

| CENEDLAETHOLDEB RHYDDFRYDOL | CENEDLAETHOLDEB CEIDWADOL |
|---|---|
| **Cryfderau:** | **Cryfderau:** |
| **Gwendidau:** | **Gwendidau:** |

## TASG 6

Gan ddefnyddio'r pwyntiau a nodwyd gennych fel rhan o'ch atebion i Dasgau 1–5, ceisiwch lunio traethawd sy'n ateb y cwestiwn traethawd canlynol:

'Yn ei hanfod ffenomen ddinistriol yw cenedlaetholdeb.' Trafodwch.

**TASG 7**

Gan ddwyn ynghyd y wybodaeth sydd gennych bellach ynglŷn â phrif nodweddion cenedlaetholdeb, ceisiwch lunio traethawd sy'n ateb y cwestiwn canlynol:

'Yn sgil globaleiddio, y tebygrwydd yw y bydd ymlyniad pobl at eu cenedl yn gwanhau.' Trafodwch.